# CYNGOR I YSGOLION CYMRU AR ADDOLI AR Y CYD YN YSTOD Y PANDEMIG COVID-19

CCYSAGauC
Cymdeithas Cynghorau Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol Cymru
WASACRE
Wales Association of Standing Advisory Councils on Religious Education

Mae'r pandemig hwn yn gwneud i ni weithio mewn ffyrdd newydd a chreadigol. Gofynnwyd i ni feddwl yn wahanol am sut rydym yn cynnig y profiad gorau posibl i'r dysgwyr er mwyn iddynt barhau â'u haddysg. O ganlyniad, rhannwyd amrywiaeth enfawr o weithgareddau a phrofiadau dysgu gyda rhieni/gofalwyr a'u plant ledled Cymru i gefnogi hyn. Rydych yn gwneud gwaith ardderchog, diolch!

## Addoli ar y cyd yn yr hinsawdd bresennol

Ar hyn o bryd, un o'n prif flaenoriaethau yw lles ein disgyblion, ac mae hynny'n cynnwys eu lles ysbrydol, cymdeithasol ac emosiynol hefyd. Mae gwasanaethau dyddiol sy'n cynnwys gweithred o addoli ar y cyd yn rhan werthfawr o fywyd ysgol. Maent yn helpu i ddatblygu ysbryd cymunedol, yn hyrwyddo ethos a gwerthoedd cyffredin, ac yn atgyfnerthu agweddau cadarnhaol. Yn yr amseroedd digynsail hyn, mae angen hyn yn awr yn fwy nag erioed. Mae bywyd ysgol wedi newid, ac mae parhau i gynnig addoli ar y cyd rheolaidd yn yr adeg yma yn cynnig cyfleoedd i bob aelod o'r gymuned ysgol (dysgwyr, holl staff yr ysgol, teuluoedd a'r gymuned ehangach - pe baent yn dymuno cymryd rhan) i aros mewn cysylltiad mewn ffordd sy'n ystyrlon iddyn nhw. Bydd bod yn rhan o brofiad torfol yn rheolaidd yn angor i rai o'n plant a'n pobl ifanc a all fod, yn yr amser hwn, yn teimlo'n unig a phryderus. Bydd nid yn unig yn rhoi ymdeimlad o normalrwydd iddyn nhw ond hefyd y lle a'r amser i fyfyrio ac i ystyried beth sy'n bwysig iddyn nhw'u hunain ac i eraill. Bydd yn eu galluogi i ddod ynghyd fel un gymuned a chael cysur mewn perthyn.

Wrth baratoi i gynllunio gwasanaethau addoli ar y cyd yn yr hinsawdd bresennol, maen pwysig bod penaethiaid yn ystyried yr arweiniad wrth Lywodraeth Cymru **ffrydio-byw arferion ac egwyddorion diogelu i ymarferwyr addysg** https://hwb.gov.wales/parthau/diogelwch-ar-lein/ffrydio-byw-arferion-ac-egwyddorion-diogelu-i-ymarferwyr-addysg/. Sydd wedi ei gyhoeddi fel rhan o'r canllaw 'Aros yn Ddiogel. Dysgu gydol oes' i gefnogi ysgolion sydd am gyflwyno gwersi ffrydio-byw i'w dysgwyr.

## Sut i hwyluso gweithredoedd addoli ar y cyd ar gyfer dysgu o bell

Mae nifer o ffyrdd y gall ysgolion gynnig gwasanaethau addoli ar y cyd a fyddai'n gyraeddadwy ac yn ymarferol i ddysgwyr a rhieni/gofalwyr. Mae'n bwysig hefyd nad yw cynllunio i addoli ar y cyd yn rhoi straen diangen ar benaethiaid ac athrawon, ar adeg sydd eisoes yn ddigon anodd. Dim ond rhai awgrymiadau yw'r canlynol i ysgolion eu hystyried i'w helpu i sicrhau fod pob dysgwr yn cael y cyfle i gymryd rhan mewn addoli ar y cyd yn rheolaidd, wrth ddysgu o bell.

Mae bob amser yn bwysig ystyried cefndiroedd y disgyblion i gyd wrth gynllunio gwasanaethau ar y cyd. Gall hyd fod hyd yn oed yn fwy gwir wrth ystyried fod y sesiynau hyn yn cael eu cyrchu

yn y cartref gan rieni/gofalwyr sy'n anghyfarwydd â natur gwasanaethau addoli ar y cyd yn yr ysgol. Bydd y sesiynau hyn yn naturiol yn cefnogi lles ysbrydol, cymdeithasol ac emosiynol. Er mwyn bod yn gwbl gynhwysol, dylid egluro'n glir pan fod cyfle i addoli'n cael ei gynnig, nad oes gorfodaeth i addoli, ac y gall pob teulu ddewis p'un ai i gymryd rhan, yn addoli, neu'n myfyrio, neu'n llonyddu, neu ddim ond yn cael amser i feddwl yn dawel.

Gallai ysgolion gynnig:

- ffrydio gwasanaethau addoli ar y cyd gan y Pennaeth sy'n dilyn themâu penodol lle y rhennir llwyddiannau a chynhwysir amser i fyfyrio neu addoli. Gallai staff penodol helpu'r penaethiaid i baratoi gwasanaethau ar sail rota;
- addoliadau ar y cyd byw drwy fideo-gynadledda e.e. drwy Microsoft Teams yn Hwb;
- munud i feddwl yn cael ei gyflwyno drwy wefan yr ysgol, y cyfryngau cymdeithasol neu e-bost. Gellir defnyddio hwn fel ffordd ystyrlon o gynnig cyfleoedd ar gyfer datblygiad emosiynol, cymdeithasol, ac ysbrydol a chyfle i addoli fel y bo'n briodol;
- anfon enghreifftiau o fyfyrdodau i ddysgwyr feddwl amdanynt gartref. Gallent fod yn syml, yn ddarn o gerddoriaeth, darlun/fideo byr neu gwestiwn arwyddocaol i'w ystyried. Gall rhieni/gofalwyr wedyn ddewis cynnig cyfle i addoli fel sy'n briodol i gefndir y teulu;
- cyfle i'r dysgwyr awgrymu themâu a phynciau ar gyfer addoli ar y cyd neu fyfyrio. Gallent fod eisiau arwain ar destun y gwasanaeth e.e. recordio fideo byr i eraill, dewis llun, a rhannu llwyddiannau. Gall dysgwyr ddal fod wrth wraidd gwasanaethau a arweinir gan y plentyn;
- gwasanaethau creadigol a phwrpasol y gellid eu datblygu drwy archwilio rhan o'r cysyniadau a'r themâu allweddol a geir yn natganiadau Yr Hyn sy'n Bwysig yn y Cwricwlwm i Gymru 2022. Byddai hyn yn rhoi cyfle i'r dysgwyr ddatblygu rhai o nodweddion y pedwar diben ac, ar yr un pryd, ymestyn oes adnoddau a grëwyd;
- cyfle i'r dysgwyr gymryd rhan weithredol mewn addoli ar y cyd a chyfle i ymateb fel rhan o'r profiad torfol. Er enghraifft, anfon gwaith celf, barddoniaeth, neu ddim ond rhannu eu meddyliau ar y myfyrdod drwy sgwrs gyda'u hathro. Gallai rhwydweithiau a chyfleusterau siarad Hwb fod yn ffordd ddefnyddiol o rannu'r ymatebion hyn. Gall hyn fod yn arbennig o bwysig yn yr amser pryderus yma;
- rhannu profiadau athrawon, staff cymorth a dysgwyr mewn ysgolion hyb drwy fideo a recordiwyd ymlaen llaw, ffotograff, dyddiadur, ayb... (os yw'n addas, a thrwy gael y caniatâd perthnasol a dilyn gweithdrefnau diogelu); ac
- i'r rheiny sydd heb fynediad at adnoddau digidol, darparu pecyn o awgrymiadau am fyfyrdod drwy'r post, fel eu bod yn dal yn cael cyfle i fyfyrio a datblygu'n emosiynol, cymdeithasol ac ysbrydol ynghyd â chyfle i addoli fel/os yn briodol i gefndir y teulu. Gellid seilio'r rhain ar adnoddau a ddatblygwyd yn barod.

Pa fodd bynnag rydych yn hwyluso gwasanaethau addoli ar y cyd ar gyfer dysgu o bell, nid oes angen iddyn nhw fod yn hir nac yn gymhleth. Mae profiadau addoli ar y cyd cadarnhaol yn gynhwysol a dylent fod yn addas i bawb yng nghymuned yr ysgol waeth beth eu ffydd neu eu cred. Mae angen edrych ar bynciau a themâu mewn ffordd sy'n sensitif, sy'n helpu lles pob plentyn a pherson ifanc, yn cynnwys y rheiny sydd mewn amgylchiadau heriol iawn.

**Awgrymiadau am adnoddau**

Mae'r tabl isod yn rhoi dolenni i ystod o wasanaethau addoli ar y cyd i chi ddewis ohonynt, fel sy'n briodol i'ch ysgol arbennig chi ac i gefndir teulu'ch plant. Ysgrifennwyd rhai yn benodol ar gyfer ysgolion o natur grefyddol a dylech ystyried hyn yn llawn cyn penderfynu a ydynt yn addas i'w rhannu gyda theuluoedd gartref. Mae penaethiaid yn gyfrifol am sicrhau safon yr adnoddau a ddefnyddir ar gyfer addoli ar y cyd yn eu hysgolion.

**Cyfrwng Cymraeg**

| | |
|---|---|
| Yn ychwanegol i'r gwasanaethau arferol maent wrthi yn creu adnoddau 'munud i feddwl' byr sy'n ymateb i Covid- 19. Maent yn Gristnogol yn eu gwedd, ond wedi eu creu i weithio ag unrhyw blentyn waeth beth eu cefndir ffydd neu ddiwylliant. | https://cymru.assemblies.org.uk |
| Munud i feddwl Cristnogol eu gwedd | https://www.bbc.co.uk/programmes/p016k10m |
| Cymorth Cristnogol – gwasanaethau ar gael yn ddwyieithog | https://www.christianaid.org.uk/get-involved-locally/wales/cymru |
| Gwasanaeth ar gyfer CA2 a 3 | https://resources.hwb.wales.gov.uk/VTC/2017/RockandRollPoet/ca2/gwasanaethau.html<br>https://resources.hwb.wales.gov.uk/VTC/2017/RockandRollPoet/ca3/gwasanaethau.html |

**Cyfrwng Saesneg**

| | |
|---|---|
| Yn ogystal â'r gwasanaethau arferol, mae Assemblies.org yn cyhoeddi clipiau ac awgrymiadau *Pause for Thought* ar gyfer sefyllfa Covid-19. Cristnogol yn eu gwedd, ond wedi eu creu i weithio ag unrhyw blentyn waeth beth eu cefndir ffydd neu ddiwylliant. | https://www.assemblies.org.uk/ |
| Adnoddau Bahá'í | http://re.bahai.org.uk/assembly-ideas/ |
| Radio - BBC School Radio Assemblies | https://www.bbc.co.uk/programmes/p0592r92 (ks1)<br>https://www.bbc.co.uk/programmes/p00nkdgx (ks2) |
| Catholic Agency for Overseas Development (CAFOD) | https://cafod.org.uk/Education/Primary-teaching-resources/Primary-school-assemblies |
| Christian Aid – gweler uchod am Cymorth Cristnogol | https://www.christianaid.org.uk/schools/school-assemblies |
| Esgobaeth Llanelwy – Adnoddau i ysgolion, pobl ifanc a theuloedd... a'r rheiny sy'n gweithio gyda nhw yn ystod y pandemig (Eglwys yng Nghymru) | https://dioceseofstasaph.org.uk/coronavirus/resources-for-young-people/ |

| | |
|---|---|
| SBeducation – Twitter Addysg Esgobaeth Abertawe ac Aberhonddu (Eglwys yng Nghymru) | https://twitter.com/swanbreced |
| Addoli wythnosol yn y cartref gan Dîm Ysgolion Esgobaeth St Albans (Eglwys yn Lloegr) | https://www.stalbans.anglican.org/schools/worship-at-home/ |
| Humanists UK Gwasanethau i bawb – cynhwysol a hygyrch i bob ysgol, athro, a disgybl, waeth beth eu cefndir crefyddol neu gred. | https://assembliesforall.org.uk/about/ |
| Oak National Academy #1 (Lloegr yn unig) | https://youtube.co.uk |
| Adnoddau cynradd - gwasanaethau | http://www.primaryresources.co.uk/assembly/assembly.htm |
| TES adnodd am ddim i wasanaethau | https://www.tes.com/teaching-resource/500-values-assemblies-hundreds-of-free-assemblies-with-powerpoints-stories-videos-and-quotes-11866521 |
| *Diversity of Religion and Belief A guidance and resource pack for primary schools in England and Wales* - Peter Hemming, Elena Hailwood, Connor Stokes – gweler t.29ff | https://orca.cf.ac.uk/110147/19/Diversity%20of%20Religion%20and%20Belief%20-%20A%20Guidance%20and%20Resource%20Pack%20for%20Primary%20Schools%20in%20England%20and%20Wales.pdf |
| Unicef – Rights Respecting Schools – adnoddau gwasanaeth | https://www.unicef.org.uk/rights-respecting-schools/resources/teaching-resources/guidance-assemblies-lessons/ |

**Cymorth a Chyngor Pellach**

Os yw Awdurdodau Lleol neu ysgolion angen cymorth neu gyngor pellach ar wasanaethau addoli ar y cyd, cysylltwch ag Alice Parry, Ysgrifennydd Cymdeithas CYSAGau Cymru ar Alice.Parry@bridgend.gov.uk. Gall Alice eich rhoi mewn cysylltiad ag ymgynghorwyr neu GYSAGau yn eich awdurdod lleol.

**Lluniwyd y ddogfen hon i CCYAGauC gan yr unigolion canlynol ac rydym yn ddiolchgar iawn i'w sefydliadau:**

Libby Jones, Ymgynghorydd AG, Cyngor Sir Wrecsam a Chanolfan Addysg Grefyddol St Giles
Alice Parry, Ysgrifennydd CCYSAGauC a Phennaeth Crefydd, Athroniaeth a Moeseg, Coleg Cymunedol Y Dderwen
Rachel Samuel, Is Gadeirydd CCYSAGauC a Phennaeth Bagloriaeth Cymru ac athrawes AG, Ysgol Gymraeg Ystalyfera Bro Dur
Elizabeth Thomas, Cyfarwyddwr Taleithiol dros Addysg, Yr Eglwys yng Nghymru
Gill Vaisey, Ymgynghorydd AG, Books at Press
Paula Webber, Ymgynghorydd Dysgu Proffesiynol GCA(EAS) (AG a CYSAG)

CCYSAGauC
Cymdeithas Cynghorau Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol Cymru
WASACRE
Wales Association of Standing Advisory Councils on Religious Education

© 20/05/2020